**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 23 Mehefin 2022 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Steve Hunt | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Darren Price | Cyngor Sir Gâr |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Steve Wilks | Prif Ysgol Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jason Blewitt | Archwilio Cymru |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Non Jenkins | Archwilio Cymru |
| Gareth Jones | Seilwaith Digidol (Dinas-Ranbarth Bae Abertawe) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Steven Jones | Cyfarwyddwr Datblygu (Cyngor Sir Benfro) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Martin Nicholls | Prif Wiethredwr Dros Dro (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |
| Ian Williams | Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr)

Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)

William Bramble (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Benfro))

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**2 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.

**3 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Croesawodd y Cadeirydd Darren Price (Arweinydd Cyngor Sir Gaerfyrddin) a'r Cynghorydd Steve Hunt (Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot) i'w cyfarfod cyntaf erioed o Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**4 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**5 Y diweddaraf ar Isadeiledd Digidol.**

Cyflwynodd Gareth Jones (Swyddfa Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad gwybodaeth a oedd yn amlygu'r cynnydd a wnaed a statws Rhaglen Isadeiledd Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**6 Adroddiad(au) Chwarterol/Adroddiad Amlygu Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Jon Burnes (Cyfarwyddwr Portffolio Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am Adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA) ar gyfer y Portffolio BDdBA a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

Darparodd yn benodol ddiweddariadau am gynnydd ynghylch y canlynol:

- Adroddiad Uchafbwyntiau BDdBA
  - Ymgysylltu â busnesau
  - Cyfathrebu a Marchnata
  - Prosiect Morol Doc Penfro.
  - Isadeiledd digidol.
  - Pentre Awel.
  - Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau.
  - Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
  - Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.
  - Yr Egin.
  - Campysau BDdBA.
  - Sgiliau a doniau.
- Dangosfwrdd Monitro Chwarterol.
- Adroddiad Monitro Chwarterol BDdBA (Portffolio a Rhaglenni/Phrosiectau).

- Cynllun Cymeradwyo a Sicrwydd Integredig.
- Cofrestr Risg Portffolio.
- Asesiad Effaith COVID-19.
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Adolygu Portffolio 'Gateway' 0
- Gwaith caffael sydd ar y gweill.
- Cofnod o faterion y portffolio.
- Gwireddu buddion.
- Crynodeb o'r effaith adeiladu

**Penderfynwyd** nodi'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer y Portffolio BDdBA a'i raglenni/prosiectau cyfansoddol.

## 7 Monitro Ariannol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2021/22 - Sefylla Alldro Dros Dro Chwarter 4.

Cyflwynodd Richard Arnold (Swyddfa Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am sefyllfa ariannol ddiweddaraf Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** adolygu'r adroddiad diweddaru am Fonitro Ariannol a'i gymeradwyo.

## 8 Cyllideb Ddiwygiedig y Cyd-bwyllgor 2022/2023.

Cyflwynodd Richard Arnold (Swyddfa Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am gyllideb ddiwygiedig mewn perthynas â gweinyddu a chefnogi swyddogaethau ar gyfer portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** ystyried y gyllideb ddiwygiedig mewn perthynas â'r weinyddiaeth y mae ei hangen i gefnogi a chyflwyno Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a'i chymeradwyo.

## 9 Adroddiad Archwilio Mewnol.

Cyflwynodd Matthew Holder (Archwilio Mewnol Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer canfyddiadau a chamau gweithredu’r adolygiad Archwilio Mewnol i Bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y dylid nodi canfyddiadau a chamau gweithredu'r adolygiad Archwilio Mewnol i Raglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

## 10 Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio 2021/22.

Cyflwynodd Jason Blewitt a Non Jenkins (Archwilio Cymru) adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am y cynllun a'r cwmpas mewn perthynas ag archwiliad allanol o Ddatganiad o Gyfrifon Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** adolygu cynllun a chwmpas arfaethedig yr archwiliad allanol fel a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad a chytuno arnynt, a bod Archwilio Cymru'n archwilio i Ddatganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**11 Adborth ar Ddigwyddiad Arddangos Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Heidi Harries (Swyddfa Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad gwybodaeth am yr adroddiad ar ôl digwyddiad a oedd yn trafod Digwyddiad Arddangos y Fargen Ddinesig a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2022, fel a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

**12 Dogfennaeth a ddarperir gan y Cyd-bwyllgor.**

Cyflwynodd Phil Ryder (Swyddfa Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer darparu dogfennaeth i'r Cyd-bwyllgor a'r Cyd-bwyllgor Craffu yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cynnig a amlinellwyd yn Adran 2 yr adroddiad a'r ddogfennaeth i'w darparu i'r Byrddau Llywodraethu.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.23 pm

**Cadeirydd**